Nodau Datblygu’r Mileniwm
Nod Datblygu’r Mileniwm 4 – Gostwng marwolaethau plant

Gwybodaeth a gweithgareddau



Targed – Gostwng y raddfa marwolaeth dan bump oed o ddwy ran o dair rhwng 1990 a 2015. Ledled y byd, mae dros ddeg miliwn o blant yn marw bob blwyddyn cyn cyrraedd eu pumed pen-blwydd, bron i gyd mewn gwledydd sy’n datblygu.* Gellid atal y mwyafrif o’r marwolaethau hyn gyda dŵr glân, glanweithdra, bwyd da a gofal iechyd. Mewn gwledydd sy’n datblygu, mae cynifer ag un plentyn o bob deg yn marw cyn cyrraedd pump oed.

Os ydym i atal y gwastraff hwn o fywyd dynol, rhaid i ni ddosbarthu adnoddau’r byd yn decach, a sicrhau fod gan bobl ddŵr glân, gofal iechyd fforddiadwy ac addysg. Byddai rhaglenni brechu hefyd yn cynorthwyo i atal afiechydon megis y frech goch. Mae’r wybodaeth a’r adnoddau angenrheidiol gan y byd i gyflawni’r targedau hyn. Y cyfan sydd ei angen yw perswadio gwleidyddion i gadw at eu haddewidion.

*Mae 90 y cant o farwolaethau dan bump ledled y byd yn digwydd mewn 42 o wledydd yn unig. (State of the World’s Children, UNICEF 2005)

Ymysg y gweithgareddau ar gyfer y nod hwn

Gofalu am fabanod
Disgyblion iau yn ystyried beth sydd ei angen ar fabanod cyn taclo testun marwolaeth babanod.

Pam fod rhai plant mewn mwy o berygl nag eraill?
Disgyblion yn gwneud posteri i ddangos faint o blant ledled y byd sy’n marw, a sut gellid atal y sefyllfa.

Dirgelwch y Frech Goch
Pam fod pobl mewn gwledydd sy’n datblygu yn marw o’r frech goch? Bydd y disgyblion yn edrych ar ddatganiadau am y frech goch er mwyn ceisio dod i gasgliadau.

Nod Datblygu'r Mileniwm 4 – Gostwng marwolaethau plant

Targed – Gostwng o ddwy ran o dair, rhwng 1990 a 2015, y raddfa marwolaeth dan bump oed.

Ledled y byd, mae dros ddeng miliwn o blant yn marw cyn eu pumed pen-blwydd bob blwyddyn, y mwyafrif o achosion y mae modd eu hosgoi. Mae'r raddfa marwolaeth uchaf o blant dan bump yn parhau i fod yn Affrica Is-Sahara, yn 166 fesul mil o enedigaethau byw yn 2005, er bod y ffigwr hwn wedi syrthio o 185 fesul mil o enedigaethau byw yn 1990. Fodd bynnag, mewn gwledydd unigol yn Affrica a llefydd eraill, mae'r raddfa'n uwch fyth; er enghraifft yn Sierra Leone, Angola, Niger ac Afghanistan mae chwarter y plant yn marw cyn eu pumed pen-blwydd.

Mae graddfa marwolaeth plant yn gysylltiedig gyda thlodi. Mewn gwledydd incwm isel, mae nifer o blant yn marw o afiechydon, neu gyfuniad o afiechyd a diffyg maeth, y gellid ei atal pe bai ganddynt fynediad at ofal iechyd sylfaenol, fforddiadwy yn lleol. Ymysg yr afiechydon cyffredin mae afiechydon anadlol, dolur rhydd, malaria a'r frech goch – un o'r prif achosion marwolaethau plant y mae modd eu hatal. **Ar sail amcangyfrifon Sefydliad Iechyd y Byd mae tua 150,000 o farwolaethau bellach yn digwydd mewn gwledydd incwm isel yn sgil newis hinsawdd, o achos canlyniadau iechyd sensitif i hinsawdd – methiant cnydau a diffyg maeth, dolur rhydd, malaria a llifogydd. Mae bron i 85% o'r marwolaethau ychwanegol hyn ymysg plant ifanc**.[1] Rhwng 2000 a 2005 syrthiodd marwolaethau yn sgil y frech goch dros 60 y cant yn fyd-eang, a 75 y cant yn Affrica. Mae'r llwyddiant hwn yn bennaf o ganlyniad i well cynlluniau brechu ac ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus; mae'r olaf hefyd wedi achub bywydau drwy ffyrdd eraill, er enghraifft rhwydi mosgito i amddiffyn yn erbyn malaria.

Os ydym i atal y gwastraff hwn o fywyd dynol, mae angen i ni sicrhau y gall llywodraethau ddarparu gofal iechyd ar gyfer eu dinasyddion. Gall gwledydd cyfoethog helpu drwy ddileu dyledion a darparu cymorth tymor hir, dibynadwy i wledydd tlotach. Mae'r wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol gan y byd i gyflawni hyn. Y cyfan sydd ei angen yw perswadio gwleidyddion i gadw at eu haddewidion.

http://www.who.int/mediacentre/news/notes/2009/climate_change_20090311/[1]

Bywyd plentyn yn Burkina Faso

Mae'r poster hwn yn dangos tad balch, Assaguid Ag Iddayahagh, yn dal ei fab bach, Ashafek. Mae Assaguid yn fugail a ffermwr o bentref anghysbell Zigberi yn Burkina Faso, ger anialwch y Sahara. Mae ganddo obeithion uchel ar gyfer ei fab.

Mae bron i 20 y cant o blant Burkinabé yn marw cyn cyrraedd pump oed. Burkina Faso yw'r pedwerydd ar restr gwledydd tlotaf y byd yn ôl y Cenhedloedd Unedig, ac mae 72 y cant o'r bobl yn byw ar lai na dwy ddoler y dydd. Mae'r diffyg bwyd a diffyg glanweithdra sylfaenol yn fygythiad i'r siawns i oroesi, yn ogystal ag afiechydon megis dolur rhydd, y frech goch a malaria. Mae modd atal yr achosion marwolaeth hyn; fodd bynnag, gyda phum meddyg yn unig ar gyfer pob 1,000 o bobl, nid oes digon o ofal iechyd sylfaenol, ac ni all nifer o bobl fforddio'r gofal sydd ar gael. Hefyd mae moddion yn rhy ddrud pan fo'n rhaid i bobl dalu am fwyd, addysg a holl hanfodion eraill bywyd. Mae'r llywodraeth yn gwario deg y cant o'i chyllideb ar ofal iechyd, ond mae angen mwy er mwyn achub bywydau. Fel y dywedodd ffigwr uchel yn y llywodraeth yn ddiweddar, 'Am gyfnod hir … roeddem yn credu fod angen datblygu'r economi cyn y system gofal iechyd. Ond heb iechyd, nid oes modd i bobl fod yn llewyrchus.'

Rhaid i wledydd cyfoethog roi mwy o gymorth fel y gall plant fel Ashafek oroesi a byw bywydau llawn ac iach.

Gofalu am fabanod

Brechiadau i amddiffyn yn erbyn afiechydon	Cynhesrwydd
Dŵr glân	Mamau sydd wedi cael addysg
Meddygon ac ysbytai cyfagos	Mwy o fydwragedd a gofalwyr genedigaeth
Llaeth o'r fron	
Teganau i chwarae gyda hwy	

Gweithgaredd 4.1

Gofalu am fabanod (7–14 oed)

Nod

- Annog disgyblion i feddwl am anghenion babanod (cyn ystyried babanod mewn gwledydd eraill).

Bydd angen

- Y pwyntiau Gofalu am Fabanod ar dudalen 3 – un set ar gyfer pob pâr o ddisgyblion
- Siswrn i'w torri

1. Mewn parau, gofynnwch i ddisgyblion feddwl a rhestru'r nifer o ffyrdd yr ydym yn gofalu am fabanod. Dylid ystyried yr holl bethau sydd eu hangen ar fabanod.
2. Casglwch eu rhestrau a lluniwch restr fel dosbarth, gan sicrhau fod y pwyntiau ar dudalen 1 dan *Gofalu am fabanod* wedi'u cynnwys. Defnyddiwch hwn ar gyfer trafodaeth.
3. Gofynnwch iddynt weithio mewn parau eto, a rhowch gopi o'r pwyntiau Gofalu am fabanod i bob pâr. Dylid ysgrifennu eu syniadau eu hunain yn y bylchau, yna torri'r daflen fel bod pob pwynt ar ddarn gwahanol o bapur. Gofynnwch iddynt roi'r holl bwyntiau yn eu trefn, yn dibynnu pa mor bwysig ydynt wrth ofalu am fabanod. Gellid defnyddio'r ffordd arferol o raddio, neu arddull diemwnt.



Gweithgaredd 4.2

Pam fod mwy o berygl i rai plant nag eraill? (7–14 oed)

Nodau

- Addysgu disgyblion am y raddfa marwolaeth dan bump, a'r rhesymau.
- Dangos iddynt fod modd atal hyn.

Bydd angen

- Papur a deunyddiau ar gyfer gwneud posteri
- Arddangos Poster 4 (dewisol)

Nodyn: Mae'r gweithgaredd hwn yn dilyn Gweithgaredd 4.1.

1. Os yw'r disgyblion wedi cwblhau Gweithgaredd 4.1, ewch dros rai o'r pethau a nodwyd sydd eu hangen ar fabanod. Beth fyddai'n digwydd pe na bai gan fabanod y pethau hyn?
2. Dywedwch wrthynt, mewn nifer o wledydd, fod llawer o blant ifanc sydd heb yr hyn sydd ei angen, a bod nifer o blant yn marw o ganlyniad. Rhowch rai o'r ystadegau hyn iddynt:
   - Mae dros 10 miliwn o blant dan bump yn marw bob blwyddyn.
   - Mewn gwledydd sy'n datblygu, mae un o bob 12 o blant yn marw cyn cyrraedd pump oed.
   - Yn y DU, un plentyn ym mhob 166 sy'n marw cyn cyrraedd pump oed.
3. Gofynnwch iddynt beth fyddai ei angen i atal y marwolaethau hyn. Wedi iddynt roi awgrymiadau, dywedwch wrthynt y byddai rhai pethau sylfaenol iawn yn arbed nifer o fywydau. Pe bai gan y plant fwyd da a dŵr glân, gellid atal nifer o farwolaethau. Pe bai ganddynt ofal iechyd da a brechiadau, gellid atal mwy fyth o farwolaethau.
4. Atgoffwch y disgyblion (drwy ddangos y poster efallai) mai nod pedwerydd Nod Datblygu'r Mileniwm y CU yw gostwng y nifer o fabanod a phlant ifanc sy'n marw. Gofynnwch i'r plant wneud posteri yn dangos yr ystadegau a rhai atebion i'r broblem.

Gweithgaredd 4.3

Dŵr ac iechyd (11–14 oed)

Nod

- Cynorthwyo disgyblion i ddysgu am y cysylltiad rhwng dŵr glân ac iechyd babanod ledled y byd.

Bydd angen

- Gwybod faint o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, a chyfrifo faint fyddai 14.2 y cant o'r cyfanswm
- Deunyddiau ar gyfer gwneud posteri
- Copïau o *Ffeithiau dŵr y byd* ar dudalen 4

1. Gofynnwch i'r dosbarth faint o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, a gofynnwch a oes modd i rywun gyfrifo sawl disgybl fyddai 14.2 y cant o'r cyfanswm. Dywedwch wrthynt fod graddfa marwolaeth dan bump yng ngwledydd tlotaf y byd yn 14.2 y cant.* Golyga hyn y byddai'r un gyfradd o blant a gyfrifwyd ar gyfer eu hysgol yn marw cyn cyrraedd pump oed yn y gwledydd hynny. A ydynt yn synnu?
2. Ewch at wybodaeth ffeithiau dŵr y byd ar dudalen 4 i ddangos fod mynediad at ddŵr glân yn chwarae rôl allweddol mewn iechyd babanod. Darllenwch y dyfyniadau ac anogwch y disgyblion i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.
3. Defnyddiwch y wybodaeth fel sail i'r disgyblion gynhyrchu posteri i egluro pwysigrwydd parhau i weithio i wella mynediad at ddŵr glân ar gyfer pawb yn y byd. (Gallech ddangos fod pethau eisoes yn gwella, ond fod angen i'r gwelliannau barhau – gellid cysylltu'r gwaith hwn gyda thasgau Poster 7.)

* Mae'r ffigwr hwn yn cyfeirio at wledydd lleiaf datblygedig y byd, yn ôl diffiniad UNICEF. Dŵr ac iechyd (11–14 oed)

Ffeithiau dŵr y byd

Pe bai gan bawb fynediad at ddŵr glân, gellid atal nifer o'r afiechydon yn y byd. Bob dydd mae bron i 5,000 o bobl yn marw o afiechydon fel dolur rhydd sy'n cael eu cludo gan ddŵr brwnt. Mae'n llawer anoddach cadw'n lân ac yn iach pan fo dŵr yn brin, a bod yn rhaid ei gludo dros bellter mawr.

Mae dolur rhydd yn lladd 1.8 miliwn o blant dan bump bob blwyddyn, ond gellid atal neu drin y mwyafrif o achosion yn rhwydd.

Mae 1.1 biliwn o bobl heb fynediad at ddŵr glân. Mae 2.6 biliwn o bobl heb doiled gerllaw.

'Pan fydd modd i ni sicrhau mynediad at ddŵr glân a chyfleusterau glanweithdra digonol i bawb, beth bynnag yw'r gwahaniaethau yn eu hamodau byw, bydd brwydr enfawr yn erbyn bob math o afiechydon wedi ei hennill.'

Dr Lee Jong-Wook, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd.

Marwolaeth babanod (dan 5) 2006 1960

Y Byd	7.2%	19.6%
Gwledydd Diwydiannol	0.6%	3.9%
Gwledydd sy'n datblygu	7.9%	22.2%
Gwledydd lleiaf datblygedig	14.2%	27.8%

(*State of the World's Children*, UNICEF 2006)

Yng ngogledd ddwyrain Brasil, rhanbarth garw sy'n dioddef sychder, mae Oxfam yn cynorthwyo partner sefydliadau lleol i helpu cymunedau i gael mynediad at ddŵr glân a diogel. Mae cyfradd marwolaethau babanod yn uchel yn y rhanbarth, yn aml yn sgil dolur rhydd neu cholera, sy'n deillio o ddiffyg dŵr glân. Plant sydd fwyaf bregus i afiechydon yn y dŵr.
Mae Oxfam GB wedi cynorthwyo i adeiladu sisternau a dyfeisiadau eraill yn ymwneud â dŵr yn y rhanbarth ers dros 14 o flynyddoedd, gan ddarparu cefnogaeth dechnegol ac ariannol i bartneriaid. Mae Oxfam wedi cefnogi partneriaid lleol i ddatblygu sisternau. Dyma danciau dŵr sydd wedi'u cynllunio i gasglu glaw o doeon tai gan ddefnyddio cwteri i sianelu'r dŵr o'r to i'r sistern. Mae'n galluogi cartref i storio'r dŵr a gasglwyd yn ystod y tymor gwlyb, a chadw'r dŵr yn lân.
Bellach gall Francenilson Alues Pereira bwmpio dŵr o sistern a adeiladwyd gyda chymorth Oxfam ym mis Mawrth 2005. Mae iechyd ei deulu wedi gwella. 'Bellach mae gennym ddŵr glân, glaw neu beidio. Mae bywyd yn well nawr'.

Gweithgaredd 4.4

Dirgelwch y Frech Goch (11–14 oed)

Nod

•

1. Rhowch amlen yn cynnwys y datganiadau i bob grŵp, gyda'r cwestiwn allweddol sydd yn rhaid ei ateb wedi'i ysgrifennu ar yr amlen. Y cwestiwn yw "Yn y DU, nid yw plant yn marw o'r frech goch. Pam felly fod plant yn y byd sy'n datblygu yn marw o'r afiechyd hwn?' Gofynnwch i'r grwpiau osod y datganiadau mewn unrhyw drefn. Cadarnhewch os oes angen egluro unrhyw eiriau.
2. Eglurwch i'r grwpiau eu bod am wneud gwaith ditectif, a defnyddio'r datganiadau i ddod o hyd i ateb i'r cwestiwn allweddol. Nid oes ateb cywir na threfn gywir. Dywedwch wrthynt fod gosod y datganiadau'n bwysig, ond bod angen edrych ar y cysylltiad rhwng y datganiadau. Fel ditectifs, mae angen iddynt feddwl am yr esboniad mwyaf argyhoeddiadol, gan ddefnyddio'r dystiolaeth ac unrhyw wybodaeth arall ar y testun. Dylid rhoi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl.
3. Wrth i'r grwpiau weithio, cadarnhewch eu bod yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol, a rhowch arweiniad os oes angen.
4. Gofynnwch i bob grŵp adrodd wrth y dosbarth am eu hateb i'r dirgelwch, gan roi rhesymau. Trafodwch eu canfyddiadau. Gofynnwch a oedd unrhyw beth yn eu synnu am y wybodaeth am y frech goch.

Gwaith pellach

Defnyddiwch y wybodaeth yn y datganiadau i gynhyrchu posteri / taflenni neu ddrama i addysgu eraill yn eich ysgol am beryglon y frech goch, a sut y gellid goresgyn yr afiechyd. Gellid trefnu clwb amser cinio i gymryd rhai o'r camau sy'n cael eu hawgrymu ar dudalen 7.

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i ddweud wrthym am eich gwersi neu brosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……✂……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:
Oedran disgyblion:

Disgrifiad addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon gennym am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Gallwch dynnu'ch enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg. Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, pe bai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.

Datganiadau – Dirgelwch y Frech Goch

1. ‘Rydym am atal yr afiechyd yn hytrach na’i drin. Mae siawns uchel y bydd plant yn Affrica sy’n dal y frech goch yn marw, gan nad yw’r moddion cywir gennym, ac ni all bobl dlawd fforddio talu amdano.’

   Dr. Makumbi, Cyfarwyddwr Rhaglen Frechu Genedlaethol Uganda

---

2. Mae’r Frech Goch yn afiechyd heintus iawn. Mae’n cael ei gario yn yr awyr, a gall ledaenu’n gyflym, yn arbennig mewn llefydd torfol. Pe na bai brechiadau o gwbl, amcangyfrifir y gellid disgwyl 2.7 miliwn o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn.

---

3. Mae plant yn aml yn cael y frech goch pan maent yn ifanc iawn.

---

4. Nid y frech goch ei hun sy’n lladd y plant. Mae’r frech goch yn gwanhau’r system imiwnedd yn y corff sy’n ymladd yn erbyn germau ac afiechyd. Golyga hyn na all y plentyn ymladd yn erbyn yr ystod enfawr o afiechydon sy’n ffynnu dan amodau byw gwael.

---

5. Gellir trin y frech goch, ond mae’r moddion i’w drin yn ddrud.

---

6. Mae’n anodd adnabod symptomau’r frech goch mewn plant sy’n byw dan amodau gwael, gan fod ganddynt nifer o broblemau iechyd yn aml.

---

7. Mae brechiad diogel, effeithiol a rhad rhag y frech goch wedi bod ar gael ers dros 40 o flynyddoedd. Mae’n costio llai na 60c y plentyn i frechu yn erbyn y frech goch, sy’n cynnwys y brechiad ei hun a chostau eraill, megis offer, cludiant a nyrsys.

---

8. Mae Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF yn gostwng marwolaethau’r Frech Goch drwy raglenni brechu rheolaidd lle mae’r timau brechu yn mynd i bob rhan o’r wlad (gan gynnwys ardaloedd anghysbell) i frechu plant ifanc iawn yn erbyn y frech goch. Mae’r rhaglenni hyn yn atal miliwn o farwolaethau’r flwyddyn.

---

9. Hanner yn unig o’r plant yn y byd sy’n datblygu sydd â mynediad at ddŵr yfed glân, ac mae llai fyth â mynediad at doiledau a system ddraenio ddigonol.

---

10. Yng ngwledydd Affrica sydd i’r de o anialwch y Sahara (Affrica Is Sahara), tua 50 y cant yn unig o’ r plant sy’n cael eu brechu yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywydau.

---

11. Mae brechiadau yn effeithiol. Ac eithrio darparu dŵr yfed glân, nid oes unrhyw fesur iechyd arall mor effeithiol â brechiadau er mwyn gostwng graddfeydd afiechyd a marwolaeth.

---

12. Yn y DU mae’r brechiad triphlyg MMR yn erbyn y frech goch, dwymyn doben a rwbela yn cael ei gynnig i bob plentyn.

---

13. Cyn y 19eg ganrif roedd y frech goch yn lladd nifer fawr o bobl ym Mhrydain.

---

14. Mae gan gwmnïau cyffuriau traws-genedlaethol hawliau dros 90 y cant o foddion gan eu bod wedi gosod patent arnynt. Golyga hyn nad oes hawl gan gwmnïau eraill i gynhyrchu fersiynau rhatach o’r moddion, felly ni all pobl dlawd eu fforddio.

Gostwng marwolaethau plant yn India

Yn 2003 lansiwyd Uned Gofal Babanod Newydd-anedig (SNCU), uned deg gwely yn ysbyty ardal Purulia, gyda chefnogaeth yr Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol. Ers hynny, mae Purulia wedi gweld gostyngiad cyson mewn marwolaethau babanod newydd-anedig, gyda gostyngiad o 30 y cant yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn unig.

Wedi'u hysbrydoli gan y llwyddiant hwn, cyflwynodd llywodraeth talaith gorllewin Bengal y model SNCU i chwe ardal arall sy'n dioddef tlodi ac iechyd gwael. Mae gan yr unedau gofal adnoddau modern, sy'n medru cynnal plant sâl ar dymheredd o 36 gradd celsius a darparu cyflenwad rheolaidd o ocsigen.

Yn Birbhum, un o ardaloedd tlotaf y rhanbarth, ers 2007 mae dros 1,500 o fabanod difrifol wael wedi defnyddio'r uned leol, gyda 75 y cant yn goroesi. Mae marwolaethau babanod wedi gostwng yn y chwe ardal, a'r ysgogiad ymysg darparwyr gwasanaethau iechyd wedi gwella o ganlyniad. Mae hygrededd sefydliadau iechyd y llywodraeth dros glinigau preifat hefyd wedi cael hwb.

- Mae'r Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol yn cynorthwyo i ostwng marwolaethau mam a phlentyn drwy Raglen Genedlaethol Iechyd Atgenhedlu a Phlant llywodraeth India, sy'n darparu £252 miliwn rhwng 2006-11. Mae'r Unedau Gofal Babanod Newydd-anedig yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen hon.

Ar hyn o bryd mae tua 141 SNCU yn gweithredu mewn taleithiau tlawd fel Orissa, Bihar, Rajasthan, Madhya Pradesh, Chhattisgarh, Assam, Uttar Pradesh, a Jammu a Kashmir.

www.cgdev.org/section/initiatives/_active/millionssaved/studies/case_8

Sut i weithredu

Mae llwyddiannau fel yr un uchod wedi digwydd drwy bartneriaethau rhwng gwledydd sy'n cyfrannu, megis y DU, a gwledydd sy'n datblygu, fel India.

Crëwyd yr Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol yn 1997 fel adran unigol, i gyflawni'r her o daclo tlodi byd-eang. Gwaith yr Adran yw sicrhau fod pob punt o gymhorthdal o Brydain yn gweithio'n galed i helpu tlodion y byd.

I sicrhau fod ein llywodraeth yn parhau i gefnogi prosiectau fel hyn, mae cyrff ymgyrchu anllywodraethol fel Oxfam yn gweithredu i atgoffau'r rhai mewn grym am eu haddewidion. Dyma awgrymiadau am rai camau y gall disgyblion eu cymryd i gefnogi prosiectau fel hyn.

Camau

- Cyfweld gweithiwr iechyd a chymharu'r hyn sy'n cael ei ddweud am ofal iechyd yn y DU gyda'r hyn sydd wedi'i ddysgu, a'u holi beth ddylai newid.
- Ysgrifennu llythyr at eich papur lleol am y materion a ddysgwyd. Mae patrwm "ysgrifennu darbwyllol" yma: www.oxfam.org.uk/education/resources/change_the_world_in_eight_steps/MDG_1
- Anfon potel o ddŵr glân at wleidydd, gyda'r neges am "achub bywydau"

Codi arian

- Ras hwyl fel babanod (mewn clytiau) ac arwyddion mawr gyda'r neges am NDM 4, a gofyn am nawdd.
- Cyfrannu eich hen deganau i siop Oxfam

NODER Cofiwch ein hysbysu am unrhyw gamau gennych chi neu eich disgyblion education@oxfam.org.uk

Am fwy o adnoddau ar ostwng marwolaethau plant ewch at:

www.oxfam.org.uk/education/resources/water_for_all